

## Ydych chi'n 18 20 oed? Cyfle newydd i roi byrb i'ch



Credit: Campbell Donaldson, Ralia Media.

Cael eich talu i ddysgu am lywodraethu'r sector treftadaeth a gwneud grantiau am 18 mis – does dim angen profiad blaenorol.

Heddiw rydym wedi lansio ein rhaglen Arweinyddiaeth Treftadaeth y Dyfodol newydd i helpu oedolion ifanc i gael eu troed yn y drws treftadaeth.

Ydych chi'n angerddol dros achub adeiladau hanesyddol, diogelu'r amgylchedd naturiol neu warchod traddodiadau diwylliannol? Rydym yn chwilio am 12 o bobl sy'n frwd dros dreftadaeth i gysgodi ein pwyllgorau ar draws y DU a chwarae rhan weithredol wrth benderfynu ble rydym yn buddsoddi ein harian.

Yn ogystal ag ennill profiad ymarferol yn y sector treftadaeth, byddwch hefyd yn derbyn hyfforddiant, yn cael ymweld â phrosiectau treftadaeth ac yn rhwydweithio ag arweinwyr y sector.

Meddai Eilish McGuinness, Prif Weithredwr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: “Un o'r pedair egwyddor fuddsoddi allweddol yn ein strategaeth 10 mlynedd, [Treftadaeth 2033](#), yw cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad. Rydym am sicrhau bod gan bawb gyfleoedd i ddysgu, datblygu sgiliau newydd ac archwilio treftadaeth.

“Un o'r ffyrdd y gallwn wneud hynny yw drwy gynyddu amrywiaeth gweithluoedd ac arweinyddiaeth treftadaeth a darparu cyfleoedd mwy cyfartal i gymryd rhan yn weithredol.

“Mae ein rhaglen Arweinyddiaeth Treftadaeth y Dyfodol wedi'i dylunio i roi profiad gyrfa gwerthfawr i grŵp o oedolion ifanc sy'n angerddol dros dreftadaeth, gan eu rhoi ar ben ffordd ar eu taith i ddod yn arweinwyr treftadaeth y dyfodol, a chefnogi ein gweledigaeth i werthfawrogi a gofalu am dreftadaeth a'i chynnal ar gyfer pawb, nawr ac yn y dyfodol.”

## Pwy sy'n gymwys a sut i wneud cais

[Mynnwch gip ar becyn recriwtio ein rhaglen Arweinyddiaeth Treftadaeth y Dyfodol am fanylion llawn](#), ond os gallwch chi ateb ydwy i'r holl gwestiynau hyn, rydych chi'n gymwys i wneud cais:

- Ydych chi'n **18–30 oed**?
- Ydych chi'n **angerddol dros dreftadaeth eich ardal neu wlad**?
- Ydych chi'n meddu ar **ychydig neu ddim profiad o gwbl** o fyrdau neu bwyllgorau?
- Ydych chi'n **deall ac yn cefnogi amrywiaeth a chynhwysiad**, yn enwedig yr heriau sy'n wynebu pobl ifanc a grwpiau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol?
- Ydych chi'n gallu **ymrwymo** i fynychu cyfarfodydd chwarterol, cymryd rhan mewn hyfforddiant a sesiynau cymorth gan gymheiriaid **am 18 mis**?

Mae ceisiadau ar agor nawr tan 11.59pm ar 10 Rhagfyr 2025. Bydd angen i chi gyflwyno'ch CV a llythyr eglurhaol yn esbonio pam fod gennych ddiddordeb yn y rhaglen a'ch bod yn addas ar gyfer y rhaglen.


Bydd y 12 ymgeisydd llwyddiannus yn dechrau ym mis Mawrth 2026. Byddwch yn cael eich talu am bob cyfarfod pwyllgor chwarterol y byddwch yn ei fynychu a byddwn hefyd yn talu eich costau teithio a threuliau perthnasol eraill.

## Gwnewch wahaniaeth dros dreftadaeth a phobl yn eich cymuned

Dywedodd Eilish: “Rydym yn falch o'n prosesau gwneud penderfyniadau datganoledig gan ddefnyddio gwybodaeth ac arbenigedd lleol ein pwyllgorau Ardal a Gwlad. Bydd Arweinwyr Treftadaeth y Dyfodol newydd yn cyfoethogi'r sgysiau hynny gan ddod â lleisiau a safbwyntiau newydd i'r pwyllgorau, ac yn ei thro bydd y rhaglen yn darparu sgiliau i'r bobl ifanc fel y genhedlaeth newydd o arweinwyr treftadaeth.

“Os ydych chi'n chwilfrydig ac yn angerddol dros dreftadaeth ac eisiau cael effaith gadarnhaol tra'n meithrin sgiliau gyrfa a hyder gwerthfawr, byddem wrth ein bodd i glywed gennych chi.”

Darllenwch [becyn recriwtio rhaglen Arweinyddiaeth Treftadaeth y Dyfodol](#) i gael gwybod mwy a [gwnewch gais ar-lein](#) erbyn 10 Rhagfyr.





[Baddonau Rhufeinig, Caerfaddon © 2017 aroundworld/Shutterstock](#)

**Treftadaeth 2033 – ein strategaeth 10 mlynedd**